



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2023

Prif Gynghorydd Optometrig Cymru Golwg ar Ofal Llygaid



Prif Gynghorydd Optometrig
Cymru, David O'Sullivan OBE

Annwyl Gydweithwyr,

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn hynod brysur i bawb. Ym mis Hydref, daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) i rym, ac i gyd-fynd â hyn, cafodd y llawlyfrau clinigol newydd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) 1 ac WGOS 2 eu cyflwyno i gefnogi'r broses weithredu. Mae pob un ohonom wedi cyfrannu at y llwyddiant arloesol hwn, a hoffwn ddiolch ichi a'r holl randdeiliaid ar draws y maes gofal llygaid am gefnogi'r broses. Rydym wedi cyflawni llawer ers dechrau ar ein taith yn ystod hydref 2019.

Wrth inni barhau i gydweithio'n gyflym i weithredu'r diwygiadau ym maes optometreg gyda phob bwrdd iechyd, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Optometreg Cymru, rydym yn gweld newid gwirioneddol ac ystyrlon yng Nghymru. Mae'r cydweithio hwn, a ategir gan lwybrau newydd arloesol, yn arddangos y ffordd y mae

pob un ohonom wedi hwyluso'r newidiadau. Mae dull cyflym a hyblyg ein proffesiwn a'n practisau optometreg o weithio ledled Cymru, a'r ffaith ein bod mewn sefyllfa i gyflawni'r diwygiadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn ddiogel ac yn effeithiol, yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau gofal llygaid hygyrch i ddinasyddion, a hynny'n deg.

Nid yw'n ormod dweud bod Cymru ar flaen y gad o ran diwygio clinigol ym maes optometreg yn y DU, a bod optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn gweithio hyd eithaf eu trwyddedau clinigol. Mae'n gyfnod gwirioneddol gyffrous ac mae gennym lawer i'w ddatlu. Gadewch inni barhau â'r momentwm, gan weithio mewn partneriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

David O'Sullivan OBE,
Prif Gynghorydd Optometrig Cymru

Cynnwys

1. Beth sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru
2. Diwygio'r Contract: Gweithredu Llwyddiannus
3. Straeon Newyddion Da
4. TG, Data a Digidol: Y Datblygiadau Diweddaraf
5. Cymru Wyrddach
6. Cynhadledd Gofal Llygaid Cymru 2023
7. Cymryd Rhan
8. Manylion cyswllt ac adnoddau

Beth sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru

Llywodraeth Cymru – Deall polisi a beth sy'n ysgogi newid.

Fel y gwyddoch, mae Cymru yn wlad ddatganoledig ac mae ganddi ei llywodraeth ei hun a all lunio polisiâu a deddfau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio er mwyn helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru a

gwneud ein gwlad yn rhywle gwell i weithio a byw ynddo. Mae yna nifer o feysydd y mae llywodraethau datganoledig yn gyfrifol amdanynt, ac mae iechyd a gofal cymdeithasol yn un ohonynt.

Cymru lachach yw'r brif ddogfen strategol sy'n llywio polisi a phenderfyniadau yn ymwneud ag iechyd. Roedd Cymru lachach, a lanswyd yn ystod haf 2018, yn cynnwys 40 o gamau gweithredu er mwyn canolbwyntio ar y trawsnewidiad sy'n ofynnol i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o fabwysiadu dull system gyfan integredig o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ers i Cymru lachach gael ei chyflwyno, mae systemau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru wedi profi newidiadau a tharfu sylweddol, yn bennaf oherwydd pandemig COVID-19. Fodd bynnag, cyflymodd y pandemig y newid trawsnewidiol yn y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi arwain at weithredu nifer o gynlluniau tymor hir yn gynt, gan gynnwys y rhai ym maes gofal iechyd llygaid.

Yn dilyn cefnogaeth gan y Cabinet, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi adolygu'n feirniadol y camau gweithredu a nodir yn Cymru lachach. Mae rhai o'r 40 cam gweithredu gwreiddiol bellach wedi'u diddymu neu wedi'u disodli gan gamau gweithredu newydd er mwyn cefnogi'r gwaith o sefydlogi ac adfer gwasanaethau yn dilyn COVID-19, ac i adlewyrchu blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig.

Yn benodol, mae'r camau gweithredu newydd fel a ganlyn:

Datgarboneiddio – Annog a chefnogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Anghydraddoldebau – Cymell arferion da i leihau anghydraddoldebau iechyd a chanlyniadau iechyd, gan ganolbwyntio ar y rhai a ddaeth yn flaenoriaeth yn ystod pandemig COVID-19.

Atal – Adeiladu ar yr ymddygiadau a'r cyfrifoldeb personol a ddangoswyd yn ystod pandemig COVID-19 i helpu pobl i gadw'n iach, drwy ddefnyddio dull integredig o wella iechyd a lles y genedl.

Plant a Phobl Ifanc – Sicrhau bod ein trawsnewidiad i system sy'n darparu iechyd a gofal di-dor yn hyrwyddo mabwysiadu ymyriadau integredig ac effeithiol i blant ar lefel ehangach, gan arwain at fwy o ganlyniadau iechyd a llesiant cadarnhaol dros amser.

Iechyd Meddwl – Partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ymateb i effeithiau COVID-19 a sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gymorth iechyd meddwl priodol.

Manteisio ar yr arferion arloesol a ffyrdd newydd o weithio a gyflawnwyd yn ystod COVID-19 a sicrhau bod buddion yn cael eu cynnal o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Gofal yn y gymuned – Datblygu llwybrau gofal system gyfan sy'n seiliedig ar werth er mwyn atal, canfod, trin a rhoi gofal parhaus mor agos i'r cartref â phosibl a sicrhau bod mesurau perthnasol yn cael eu datblygu i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion.

Wrth inni symud ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio Cymru lachach fel fframwaith strategol ar gyfer datblygu a gweithredu ffyrdd newydd o weithio, ac mae'n cysylltu'n agos â'r ddwy brif ddogfen bolisi sy'n ymwneud yn benodol ag optometreg a gofal iechyd llygaid, sef *Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Optometreg: Sicrhau Cymru lachach 2021 i 2031*.

Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth – Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy – Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Prif Swyddog Gwyddonol Llywodraeth Cymru Gyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth i helpu trafodaethau ynghylch sut beth fydd y GIG ymheng mlynedd.

Mae'r GIG bellach yn 75 mlwydd oed ac fel unrhyw sefydliad hirsefydlog mae angen iddo esblygu i gefnogi'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu nawr, gan edrych hefyd tua'r dyfodol a'r hyn a allai fod yn ein hwynebu.

Wrth feddwl am ddyfodol y GIG, mae angen inni ystyried sut y gallwn gadw gwasanaethau ar lefel a fydd yn parhau i greu budd i genedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â chefnogi'r defnyddwyr presennol. I wneud hyn, mae angen gwneud penderfyniadau dewr ynghylch llwybrau gofal, mathau o driniaethau a lleoliad triniaethau a'r ffordd y dyrennir adnoddau i sicrhau ein bod yn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'i gymharu ag anghenion y boblogaeth.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio mae rhywfaint o'r hyn sy'n ein hwynebu yn anochel; gan fod pobl yn byw'n hŷn, bydd nifer yr achosion o rai cyflyrau yn cynyddu. Fodd bynnag, gellir osgoi llawer o'r hyn yr ydym yn ei ragamcanu os gwnawn ni newid ein ffocws a chanolbwyntio ar gefnogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i wneud penderfyniadau gwell ynghylch eu hiechyd ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Cydnabyddir bod poblogaeth Cymru yn hŷn na phoblogaeth gwledydd eraill y DU a bod Cymru yn wynebu heriau o ran lefelau yfed, smygu, a gordewdra. Mae hyn i gyd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl a'r galw am wasanaethau'r GIG i ddinasyddion Cymru.

Er mwyn newid ffocws y GIG i brosesau atal a helpu poblogaeth Cymru i wneud newidiadau sylweddol i'w hymddygiad a'u ffordd o fyw er mwyn dylanwadu ar drywydd cyflyrau hirdymor yn y dyfodol, bydd angen creu amgylcheddau sy'n hybu iechyd. Yn aml, mae atal yn fwy costeffeithiol na thriniaeth.

Byddwn yn annog pob ymarferydd i gymryd peth amser i ystyried y prif ddogfennau polisi a ganlyn "*Cymru Iachach*" a "*Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*", ynghyd ag adroddiad Pwyllgor Optometrig Cymru – "*Optometreg: Sicrhau Cymru Iachach 2021 i 2031*" ac adroddiad y Gangen Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth. Mae'r dogfennau hyn yn ein helpu i ddeall sut mae'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau optometreg wedi datblygu yng Nghymru, a'r cyd-destun ar gyfer ystyried datblygiadau pellach a'u symud yn eu blaen.

Mae'r trawsnewid ym maes gofal iechyd llygaid ar ddechrau, ac mae yma gyfle gwirioneddol i'r holl broffesiwn barhau i lunio'r dyfodol, er budd y proffesiwn a dinasyddion Cymru.

Diwygio'r Contract: Gweithredu Llwyddiannus

Fel rhan o'r newid trawsnewidiol, nodau diwygio'r contract optometreg fu gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd llygaid GIG Cymru, gan symud tuag at fodel gwasanaeth sy'n glinigol briodol ac yn seiliedig ar egwyddorion "*Cymru Iachach*" a saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Diben y llwybrau gofal llygaid newydd yw lleihau'r pwysau ar adrannau llygaid ysbytai a chynyddu eu capasiti drwy fonitro, rheoli a darparu triniaeth gofal sylfaenol. Wrth wneud hynny, a chyda newidiadau cysylltiedig i'r model tâl ariannol, mae hyn yn cefnogi'r broses o gefnu ar bractisau optometreg sy'n dibynnu ar werthiannau manwerthu a chofleidio dyfodol sy'n glinigol gynaliadwy.

Mae'r newid system gyfan ym maes optometreg, a ategir gan lwybrau newydd arloesol a deddfwriaeth newydd, eisoes wedi ehangu'r ystod o wasanaethau yr ydym yn eu darparu ar y stryd fawr, ac wedi lleddfu'r pwysau ar feddygon teulu ac ysbytai.

Roedd yn foment arwyddocaol pan ddaeth y Rheoliadau i rym ym mis Hydref 2023. Fodd bynnag, dim ond un o blith nifer o gamau oedd hyn ar ein taith tuag at ddarparu'r model clinigol newydd ar gyfer gofal iechyd llygaid yr ydym wedi bod yn gweithio tuag ato.

Fel y gwyddoch, mae llwybrau WGOS 1 ac WGOS 2 yn gwbl weithredol, ac mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r ddau lwybr hwn yn benodol. Rheoleiddir llwybrau WGOS 3, 4 a 5 drwy gyfarwyddiadau deddfwriaethol (fel y gwelwyd yn flaenorol – cyfarwyddiadau deddfwriaethol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru). Fodd bynnag, er bod WGOS 3 yn gwbl weithredol, llwybrau WGOS 4 a 5 yw'r flaenoriaeth nesaf ar gyfer ein grwpiau gweithredu.

Dechreuwyd ar y broses hon drwy gyflwyno'r llwybr Optometreg Rhagnodi Annibynnol ar gyfer WGOS 5 i drin a rheoli achosion aciwt o ofal sylfaenol. Rydym yn disgwyl y bydd WGOS 4 a 5 yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Gydol y broses weithredu hon, byddwn yn eich annog i gyd i fonitro eich cysylltiad ag Arweinwyr Clinigol cenedlaethol WGOS, eich Cynghorwyr Optometrig lleol ac Optometreg Cymru.

Gweithlu – Ein huchelgais yw gwneud Cymru yn lle y bydd pobl o bob rhan o'r proffesiwn, yn y DU ac Ewrop, yn dymuno dod i weithio ynddo, gan groesawu'r cyfleoedd yr ydym wedi'u sefydlu i hyfforddi a darparu mwy o wasanaethau clinigol yn y gymuned.

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r buddsoddiadau yr ydym wedi'u gwneud o ran gweithredu diwygiadau ym maes optometreg ac uwchsgilio'r proffesiwn ledled Cymru yn rhai na welwyd eu tebyg o'r blaen, a'n nod fu cynyddu'r niferoedd sydd wedi ennill cymwysterau uwch ychwanegol. Rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy ein hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a thrwy gyfleoedd newydd a gaiff eu cynnig gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Ategir hyn ymhellach gan dair Canolfan Addysgu a Thrin, a Chanolfan Efelychu gyntaf Cymru, a fydd yn cefnogi'r bwriad i weithio'n fwy rhanbarthol.

Mae **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)**, a sefydlwyd bum mlynedd yn ôl, yn canolbwyntio'n strategol ar addysg a hyfforddiant ac wedi bod yn rhan annatod o ddiwygio ym maes optometreg, gan gefnogi hyfforddiant mewn nifer o ffyrdd drwy eu gwefan addysgu "Y Tŷ Dysgu". Fe gafodd y wefan ei sefydlu yn barod ar gyfer y contract optometreg newydd, ac er mwyn darparu'r cyfle i gwblhau'r modiwlau gorfodol, a gwblhawyd gan bob un ohonom cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

Mae AaGIC hefyd yn comisiynu modiwlau hyfforddi ar gyfer optometryddion, optegwyr cyflenwi ac optegwyr lensys cyffwrdd, gan sicrhau mynediad cyfartal ledled Cymru. Mae dros 200 o leoedd wedi'u comisiynu o fewn y tair blynedd diwethaf, ac yn 2023, gwelwyd cynnydd o 30% mewn comisiynu i helpu i weithredu'r diwygiadau optometreg ym meysydd Glawcoma, Retina Meddygol, Golwg Gwan a Rhagnodi Annibynnol er enghraifft. Mae'r cymwysterau uwch hyn yn hanfodol i alluogi optometryddion i reoli a monitro mwy o gleifion yn y gymuned a fyddai yn gorfod mynd i'r ysbyty fel arall.

Yn ogystal â'u rôl hyfforddi a chomisiynu, mae AaGIC hefyd yn cefnogi'r proffesiwn, yn enwedig wrth iddynt ymgymryd â rolau newydd ychwanegol i weithredu'r contract optometreg diwygiedig. Mae cyfarfodydd adolygu a sesiynau mentora cymheiriaid yn

unigryw ac yn helpu pobl wrth iddynt ddefnyddio modelau gwasanaeth clinigol newydd megis Rhagnodi Annibynnol.

Byddwn yn eich annog i fynd i un o'u digwyddiadau addysg aml-broffesiynol a'u **cynhadledd addysg** optometreg – a gynhelir yn y De a'r Gogledd.

Mae'r **Canolfannau Addysgu a Thrin** yn cefnogi egwyddorion diwygio'r contract optometreg i uwchsgilio'r proffesiwn a chynyddu nifer yr optometryddion sydd â chymwysterau proffesiynol uwch, drwy ddarparu lleoliadau hyfforddi i optometryddion sy'n cwblhau gofynion clinigol cymwysterau ychwanegol.

Rydym wedi bod yn buddsoddi mewn canolfannau Addysgu a Thrin rhanbarthol newydd, gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a GiG Cymru. Mae un ganolfan eisoes yn darparu lleoliadau ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n gwasanaethu'r proffesiwn yn y De-ddwyrain.

Cafodd Canolfan Gofal Llygaid Prifysgol GiG Cymru yn Ysbyty Cymunedol Treffynnon gyllid yn 2023, a bydd lleoliadau yn cael eu cynnig i optometryddion yn y Gogledd yn gynnar yn 2024. Mae'r drydedd ganolfan a'r olaf yn cael ei sefydlu yn Ysbyty Singleton, a bydd lleoliadau yn cael eu cynnig ar gyfer optometryddion o'r De-orllewin ym mis Mawrth/Ebrill 2024.

Canolfan Efelychu – Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad er mwyn sefydlu canolfan efelychu newydd yng Nghaerdydd ar gyfer meddygon offthalmoleg o dan hyfforddiant. Bydd y ganolfan efelychu yn cefnogi pob un o'n tair Canolfan Addysgu a Thrin, yn ogystal â galluogi perthynas waith agosach rhwng optometreg ac offthalmoleg.

Mae cwricwlwm hyfforddi Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yn ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion gael hyfforddiant efelychu cyn y gallant drin claf, felly, mae sefydlu canolfan efelychu offthalmoleg yng Nghymru nid yn unig yn ddatblygiad i'w groesawu ond hefyd yn ddatblygiad hanfodol.

Bydd y Canolfannau Addysgu a Thrin a'r ganolfan efelychu yn gwella hyfforddiant amlddisgyblaethol ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd ledled Cymru. Ein nod yw gwneud Cymru yn lleoliad canolog i hyfforddi a gweithio ynddo ar gyfer pob proffesiwn sy'n ymwneud â darparu gofal llygaid yn y DU. Rydym am i glinigwyr o bob proffesiwn hyfforddi ac aros yma.

Straeon Newyddion Da

Bu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn annerch ein Cynhadledd Gofal Llygaid yn ddiweddar, ac yno rhannodd stori Lucy Owen o'r BBC.

Fel rhan o'n hymgyrch "Helpwch Ni i'ch Helpu Chi", gwrandawodd Lucy ar ein cyngor ynghylch pwysigrwydd profion golwg rheolaidd ac aeth i'w chlinig optometreg lleol, lle canfuwyd bod angen triniaeth frys arni er mwyn achub ei golwg.

Bydd stori Lucy o gymorth i godi proffil gwasanaethau gofal llygaid a ddarperir yng Nghymru a phwysigrwydd archwiliadau iechyd gofal llygaid rheolaidd.

Ddechrau'r hydref, aeth y Prif Weinidog ar nifer o ymweliadau a oedd yn gysylltiedig ag iechyd yng Nghymru, gan gynnwys ymweliad â Chanolfan Addysgu a Thrin Caerdydd, a Monnow Eyecare yn Nhrefynwy. Roedd y Prif Weinidog am gael y cyfle i siarad ag optometryddion a chleifion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae'r llwybrau optometreg newydd yn cael eu darparu'n ymarferol, ac effaith darparu gofal yn nes at y cartref ar gleifion.

Bydd y Prif Weinidog yn cynnal mwya o'r ymweliadau hyn yn ystod 2024.

TG, Data a Digidol: Y Datblygiadau Diweddaraf

Ein huchelgais o hyd yw cyflwyno system atgyfeirio electronig o bractisau optometreg cymunedol i adrannau llygaid ysbytai, gan gysylltu'r system gyfan. Bydd hyn yn helpu i ddarparu atgyfeiriadau diogel ac amserol i gleifion ar gyfer diagnosis a thriniaeth, a gofal a rennir yn y pen draw. Mae sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn gyflym ac yn ddiogel gan osgoi oedi mewn triniaeth yn hanfodol i wella'r canlyniadau i gleifion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn cyflwyno cyfeiriadau e-bost optometreg, system atgyfeirio electronig a Chofnod Electronig am Gleifion yn genedlaethol ar gyfer gofal llygaid. Er nad yw hyn wedi datblygu mor gyflym â'r disgwyl, gallwn eich sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo, ac mewn rhai byrddau iechyd, mae'r gwaith o gyflwyno rhannau o'r systemau TG, Data a Digidol newydd ar y gweill.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio i sicrhau y bydd gan bob optometrydd fynediad at gyfeiriadau e-bost y GiG yn 2024. Bydd hyn yn cyflymu'r broses electronig hyd nes y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cyflwyno atgyfeiriadau electronig a Chofnod Electronig am Gleifion ledled Cymru. Byddwn yn eich annog i gymryd rhan drwy eich Pwyllgor Optegol Rhanbarthol wrth inni symud tuag at system sy'n gwbl dddigidol.

Bwletin Ystadegau Gofal Llygaid
Ystadegau gofal llygaid: Ebrill 2021
i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU

Cymru Wyrddach

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newid hinsawdd yn bolisi craidd canolog ac mae wrthi'n hyrwyddo camau gweithredu a pholisïau ym maes optometreg sy'n cefnogi'r nod o wneud GIG Cymru yn wasanaeth Sero Net erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys polisiâu sy'n cefnogi datgarboneiddio a chynaliadwyedd.

Mae'r **Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach**, sy'n cefnogi'r pedwar gwasanaeth contractio gofal sylfaenol annibynnol yng Nghymru – fferylliaeth gymunedol, deintyddiaeth gofal sylfaenol, meddygaeth deulu ac optometreg gymunedol, yn cynnwys camau gweithredu er mwyn gwneud practisau yn fwy cynaliadwy, sicrhau cydnabyddiaeth a chyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu optometreg penodol megis annog cleifion i aildefnyddio ffrâmiau a gosod lensys newydd yn unig lle bo'n bosibl, rhoi lensys i'w haildefnyddio, ailgylchu hen sbectolau, aildefnyddio'r un cas sbectol yn ogystal ag ailgylchu eu lensys cyffwrdd plastig untro.

Mae enghreifftiau eraill o newidiadau a welwyd mewn practisau optometreg yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Newid y chwilotwr rhagosodedig ar bob cyfrifiadur gwaith. Mae Ecosia yn chwilotwr sy'n defnyddio refeniw a gynhyrchir gan hysbysebion chwilio i ariannu prosiectau plannu coed ledled y byd. (Canton Optical)
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio pinnau ysgrifennu tafladwy. (Canton Optical)
- Cwblhau archwiliad teithio staff a thrafod eu dulliau o deithio i'r gwaith, a alluogodd y practis i sylweddoli bod yr hyn sy'n dda i iechyd y blaned hefyd yn dda i iechyd personol. Ysgogodd hyn newid cadarnhaol mewn ymddygiad a gwelwyd mwy o bobl yn cerdded i'r gwaith ac ymgysylltiad newydd â'r Cynllun Beicio i'r Gwaith. (Buckley Eyecare)
- Polisi ar gyfer Effaith Gwyrdd: Cynllun gweithredu 10 pwynt ar gyfer 2023. (Optegwyr Pearce a Blackmore)

Lansiwyd y cynllun yn 2022 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac ar ôl blwyddyn gyntaf lwyddiannus, cafodd ei ail-lansio ym mis Mawrth 2023. Mae nifer mawr o bractisau wedi cofrestru, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob contractwr optometreg i ymgysylltu â'r fframwaith ac adolygu ffyrdd eu practis o weithio.

Cynhadledd Gofal Llygaid Cymru 2023

Diben ein Cynhadledd Genedlaethol Gofal Llygaid flynyddol yw hwyluso rhwydweithio a chydweithio rhwng yr holl bartneriaid, rhannu gwybodaeth gyfredol a negeseuon allweddol a dysgu mwy am rôl y gwahanol sefydliadau ledled Cymru. Roedd cynhadledd mis Tachwedd 2023, a drefnwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cymru i'r Deillion, yn amserol, wrth iddi gael ei chynnal yn union wedi i'r Rheoliadau newydd gael eu cyflwyno.

Amlygodd prif araith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatblygiadau polisi Llywodraeth Cymru, y Rheoliadau newydd, ac ymrwymiad parhaus i wella darpariaeth gofal iechyd llygaid a mynediad cleifion at wasanaethau ledled Cymru.

Thema'r gynhadledd eleni oedd '**Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol: Diwygio a Gweithredu Llwyddiannus**' a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd diwygio llwyddiannus

sydd wedi'i wreiddio drwy ein "**Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol**".

Roedd y gynhadledd hefyd yn gyfle i edrych ar daith ein proffesiwn dros yr 20 mlynedd diwethaf, gan gynnwys uwchsgilio i helpu'r gwaith o gyflwyno mwy o lwybrau clinigol, defnyddio'r sgiliau y mae'r proffesiwn wedi'i hyfforddi ar eu cyfer, a helpu i atal colli golwg yng Nghymru.

Mae'r gynhadledd yn parhau i ysgogi trafodaeth a herio'r sefyllfa bresennol er mwyn gwella canlyniadau a phrofiad cleifion ymhellach.

Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer cynhadledd 2024 yn dechrau'n fuan, a byddwn yn parhau i ddysgu a gwrandao ar y gynulleidfa a'r proffesiwn. I gael manylion ynghylch y gynhadledd neu i gynnig unrhyw feysydd posibl, cysylltwch ag: Owen Williams, Cyfarwyddwr, [Cyngor Cymru i'r Deillion](#); Owen@wcb-ccd.org.uk

Cymryd Rhan

Mae **Clystyrau Gofal Sylfaenol** yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol ynghyd, ac yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau y caiff gofal ei gydlynw'n well er mwyn hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau.

Mae datblygu cydweithfeydd proffesiynol optometreg yn gyfle cyffrous i optometreg fod yn bartner cyfartal o ran llywio gwasanaethau a dylanwadu arnynt fel rhan o glystyrau gofal sylfaenol, er mwyn diwallu anghenion iechyd llygaid cleifion. Mae ymgysylltu â chydweithfeydd proffesiynol optometreg yn rhan o delerau gwasanaeth optometreg, ac mae'n hollbwysig bod practisau yn nodi arweinwyr ac yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â chyfarfodydd parhaus.

Ffurfiwyd **Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol** i fod yn gynrychiolwyr swyddogol ar gyfer yr holl gontractwyr ac ymarferwyr Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn eu hardal, i weithio gyda'u byrddau iechyd lleol ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau optegol y GIG. Unodd pwyllgorau optegol lleol i ddod yn Bwyllgorau Optegol Rhanbarthol, a'r rhain bellach sy'n ffurfio'r grwpiau statudol sy'n ymgysylltu â byrddau iechyd lleol.

Rhennir y Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol yn dri rhanbarth sy'n cwmpasu Cymru gyfan:

Pwyllgor Optegol Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Pwyllgor Optegol Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru sy'n cwmpasu Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf Morgannwg.

Pwyllgor Optegol Rhanbarthol De-orllewin Cymru sy'n cwmpasu Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda ynghyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol yn awyddus i groesawu aelodau newydd. Os ydych chi eisiau gwybod mwy, fe'ch anogir i fynd i gyfarfod fel arsylwr. Drwy fod yn aelod o'r pwyllgor gall gweithwyr proffesiynol lleol helpu i ddarparu gofal llygaid lleol a dylanwadu ar benderfyniadau byrddau iechyd am ofal cleifion.

Mae gan **Bwyllgor Optometrig Cymru** rôl ganolog i'w chwarae o ran optometreg ac mae'n darparu cyngor proffesiynol arbenigol i Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru ar bob mater sy'n ymwneud â gofal iechyd llygaid, gan gynnwys polisi'r gwasanaeth iechyd, darpariaeth, a materion yn ymwneud â'r gweithlu.

Mae'r Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol yn bwydo i Bwyllgor Optometrig Cymru gyda chynrychiolaeth dda o bob rhanbarth. Mae'r gynrychiolaeth hon yn cynnwys y canlynol:

Tri optometrydd ac un optegydd cyflenwi a enwebwyd gan bob pwyllgor optegol rhanbarthol, a rhaid i un ohonynt fod wedi'i gyflogi mewn Ysbyty'r GIG.

Gyda'r holl newidiadau o ran darparu gofal llygaid yng Nghymru, mae'n bwysig bod y proffesiwn yn cymryd rhan ac yn parhau i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am ddod yn rhan o Bwyllgor Optegol Rhanbarthol a Phwyllgor Optometrig Cymru, cysylltwch ag Optometreg Cymru, sy'n darparu cymorth busnes i'r Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol: officemanager@Optometrywales.com

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'n proffesiwn, ac mae gennym lawer i ymfalchio ynddo yng Nghymru. Mae'r amgylchedd gwaith newydd yn seiliedig ar y rheswm yr ymunodd optometryddion ac optegwyr cyflenwi â'r proffesiwn; i ddarparu gwasanaethau clinigol a gweithio hyd eithaf eu trwydded.

Rwy'n mawr obeithio y byddwn yn parhau i gofleidio'r cyfleoedd newydd hyn gyda'n gilydd, wrth inni gyflwyno'r diwygiadau presennol ac ystyried datblygiadau yn y dyfodol i gefnogi cleifion, gwella mynediad a chanlyniadau, a pharhau i ddarparu'r gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol gorau sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Manylion cyswllt ac adnoddau

Llywodraeth Cymru

Adborth ac eitemau i'w cynnwys yn rhifyn nesaf Golwg ar Ofal Llygaid:
HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru

Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol i siarad â'ch cynghorwyr optometrig lleol a chysylltiadau gofal sylfaenol eraill.

I gael rhagor o wybodaeth am AaGIC, cysylltwch â: heiw.optometry@wales.nhs.uk

Dolenni defnyddiol

Optometreg: Sicrhau Cymru Iachach 2021 i 2031 | LLYW.CYMRU

Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol | LLYW.CYMRU

Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (llyw. cymru)

Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru 2023 – Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (gig.cymru)

gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau1/gofal-sylfaenol-gwyrddach/gofal-sylfaenol-gwyrddach-Cymru-blwyddlyfr-2022/

Taflenni cleifion ac adnoddau Coleg yr Optometryddion

Taflenni ac adnoddau cleifion – Coleg yr Optometryddion (college-optometrists.org)

Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026
Rhaglen Lywodraethu | LLYW.CYMRU

Ystadegau gofal llygaid: Ebrill 2021 i Fawrth 2023

Ystadegau gofal llygaid: Ebrill 2021 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU

Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru | LLYW.CYMRU